OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 782

## Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

## RHAN 4

### Diwygiadau canlyniadol

**Diwygio Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

**50.**—(1) Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18 (caffael cyhoeddus)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "gwneud cytundeb perthnasol ar sail y cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd" rhodder "dyfarnu contract cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "cytundeb perthnasol" rhodder "contract cyhoeddus";

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "meini prawf", "gweithdrefn dendro gystadleuol", "awdurdod contractio" a "contract cyhoeddus" yr un ystyr ag a roddir i "award criteria", "competitive tendering procedure", "contracting authority" a "public contract" yn y drefn honno yn Neddf Caffael 2023."

(**1**) O.S. 2011/1064 (Cy. 155). Diwygiwyd rheoliad 18 gan O.S. 2019/120, rheoliad 2.